CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

# Adroddiad Blynyddol gan Gynghorydd 2017/18

Hwn yw'r adroddiad gan y Cynghorydd isod ar ei weithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn.

**Cynghorydd: Carwyn Elias Jones**
**Grŵp: Plaid Cymru** **Ward: Seiriol**

## 1 - Rôl a Chyfrifoldebau

Deilydd Portffolio Datblygu Economaidd a Phrosiectau Mawr

Yn y rôl portffolio, rydw i'n canolbwyntio ar wneud fy ngorau dros Ynys Môn o ran Datblygu Economaidd, gan sicrhau'r canlyniadau gorau posib o brosiectau mawr megis yr orsaf bŵer newydd a'r holl waith cysylltiedig. Mae'r portffolio'n cynnwys Twristiaeth hefyd, sydd yn sector mor bwysig i Ynys Môn, ynghyd â'r gwasanaeth Morwrol a Hamdden.

| **Rhwng Mai 2017 a Mawrth 2018, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol:** | **Nifer y cyfarfodydd a drefnwyd** | **Nifer a fynychwyd** |
|---|---|---|
| Cyngor | 9 | 8 |
| **Pwyllgor Gwaith (Cyfarfod cyntaf ar 18.9.17)** | 9 | 8 |
| Pwyllgor Penodiadau **(gadael y Pwyllgor ar 7/11/17)** | 2 | 0 |
| Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol **(Cyfarfod diwethaf ar 4.9.17 i ymuno a'r Pwyllgor Gwaith** | 4 | 2 |
| Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd | 4 | 3 |
| Is-bwyllgor Indemniadau | 0 | 0 |
| Mae'r ystadegau a ddarperir yn berthnasol yn unig i'r pwyllgorau a restrir yn y tabl hwn. Nid yw'r ystadegau'n cynnwys presenoldeb mewn cyfarfodydd eraill sy'n ymwneud â gwaith y Cyngor Sir. Gall trefniadau cyflogaeth Aelod hefyd effeithio ar lefelau presenoldeb.<br><br>*Gall presenoldeb amrywio oherwydd natur gwaith a chyfrifoldebau aelodau - fel deilydd portffolio, cadeirydd pwyllgor neu fel cynrychiolydd y Cyngor ar gyrff allanol, er enghraifft.* | | |

Rwyf yn aelod o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn ac wedi mynychu 3 allan o 6 cyfarfod a drefnwyd. Ni fynychais y 2 gyfarfod o'r Pwyllgor Adfywio. Roeddwn â diddordeb y barnwyd ei fod yn un personol a rhagfarnllyd mewn perthynas â chais grant gan gôr ieuenctid yr oedd fy mab yn aelod ohono ac am y rheswm hwnnw nid oeddwn yn bresennol yn y ddau gyfarfod a drefnwyd o Bwyllgor Adfywio'r Ymddiriedolaeth Elusennol i drafod y ceisiadau.

| **Rwy'n cynrychioli'r Cyngor ar y cyrff allanol canlynol:** | **Nifer y cyfarfodydd a drefnwyd** | **Nifer a fynychwyd** |
|---|---|---|
| Llywodraethwr – Ysgol Gynradd Llandegfan | 8 | 8 |
| Llywodraethwr – Ysgol David Hughes, Porthaethwy | 8 | 6 |

**2 - Gweithgareddau yn yr Etholaeth**

**Cynghorau Cymuned** – Rydw i'n mynychu cyfarfodydd yn Llanddona, Cwm Cadnant a Llangoed, ac yn ogystal rydw i'n mynychu cyfarfodydd Cyngor Tref Biwmares ac yn adrodd yn ôl.

**Wynebau ffyrdd a thyllau yn y ffyrdd** - Mae cynnal ffyrdd yn fwyfwy anodd oherwydd bod cyllidebau'n crebachu ond rydw i wedi pwyso am welliannau i wynebau ffyrdd ac yn ogystal mae llawer o dyllau wedi eu llenwi ar nifer o ffyrdd.

**Tai** – Rydw i wedi delio â materion tai ar ran etholwyr o ran gofal a chynnal a chadw a chynorthwyo gyda cheisiadau am dai cymdeithasol.

**Clwb Sadwrn**
Cefnogi Clwb Sadwrn, sy'n cyfarfod ar Sadwrn cyntaf y mis mewn ystafell yn yr Eglwys, roedd y digwyddiad 'Llansadwrn drwy'r oesoedd' a gynhaliwyd yn ddiweddar yn wych.

**Digwyddiadau Lleol**
Rydw i'n gwneud fy ngorau i fynychu cymaint â phosib o ddigwyddiadau lleol a gynhelir ym mhob rhan o'r ward.

**A545 Biwmares**
Unwaith eto rydym yn dioddef o ganlyniad i broblemau tirlithriad ar hyd y ffordd bwysig hon. Sicrhawyd cyllid gan Lywodraeth Cymru i drwsio a chryfhau rhannau o'r ffordd ynghyd ag arian i gomisiynau gwaith i ganfod ateb tymor hir ac opsiynau er mwyn gwneud cais am gyllid.

**Gofal Ychwanegol**
Roedd hon yn sefyllfa anodd iawn. Er bod pawb yn croesawu buddsoddiad o £12m i ddatblygu cyfleuster Gofal Ychwanegol yn Ward Seiriol, nid oedd penderfynu ar y lleoliad yn fater hawdd o gwbl.

**Ymgynghoriad Ysgolion Seiriol**
Roedd hon yn broses anodd iawn ac mae trafodaethau'n parhau. Fel aelod etholedig lleol rydw i wedi bod yn gadarn yn fy nghefnogaeth i'r ysgolion lleol gwych ym Miwmares, Llandegfan a Llangoed.

**Parc Chwarae Llansadwrn**
Roeddwn yn falch iawn o weithio ochr yn ochr â Chyngor Cymuned Cwm Cadnant i wneud cais am arian grant i wneud gwelliannau pellach i'r parc chwarae, er mwyn cael ychydig o offer ar gyfer y plant bach. Roedd hyn yn cynnwys tŷ bach, trên a gêm OXO.

**Sul y Cofio**
Roeddwn yn falch o fod yn bresennol gyda Chynghorwyr lleol eraill, i gofio a thalu teyrnged yn Eglwys Santes Fair Biwmares a'r Senotaff gyda'r Parch. Neil Fairlamb, a gwasanaeth Sul y Cofio yn neuadd bentref Llandegfan gyda'r Parch. Angela Williams.

**Mynwent Llaniestyn**
Yn dilyn ymdrech fawr, roedd yn bleser cael bod yn bresennol mewn gwasanaeth hyfryd gydag Esgob Bangor a'r Parch. Fairlamb i gysegru mynwent newydd yn Eglwys Sant Iestyn ar 17 Mehefin.

**Posteri Baw Ci**
Drwy weithio gyda'r Cyngor Cymuned, Ysgol Llandegfan a'r PCSO lleol, cynhaliwyd cystadleuaeth i ddisgyblion i greu poster er mwyn annog perchnogion cŵn i roi baw cŵn mewn bagiau ac yna ei roi yn y bin. Dewiswyd dau boster i'w hargraffu'n broffesiynol er mwyn eu harddangos yn ardal Llandegfan a Llansadwrn.

**Dŵr Cymru**
Yn dilyn tywydd garw iawn, methodd rhwydwaith Dŵr Cymru yn yr ardal ddechrau mis Mawrth. Roedd yr ymateb yn araf ac roedd nifer o bobl mewn sefyllfa enbydus. Cyfeiriais y mater at Brif Swyddog Gweithredol Dŵr Cymru, bûm yn siarad ar Radio Cymru a gyda'r wasg ac agorwyd Ysgol Llandegfan i'r cyhoedd er mwyn iddynt gael llenwi poteli dŵr. Cafwyd ymateb yn fuan wedyn, a threfnodd Dŵr Cymru i rannu poteli dŵr a rhoi £75 o iawndal i gwsmeriaid.

**Diffibriliwr Llandegfan**
Roeddwn yn cymryd rhan ac yn cefnogi ymgyrch gan gymuned Llandegfan i gael diffibriliwr yn y pentref fel rhan o gystadleuaeth i ennill diffibriliwr. Noddwyd y gystadleuaeth, dan y teitl #defibruary, gan wasanaeth Ambiwlans Cymru, ac roeddem wrth ein bodd ein bod wedi ennill.

**Diffibrilwyr yn y Ward**
Wrth gymryd rhan yn y gystadleuaeth codais ymwybyddiaeth hefyd am y diffibrilwyr sydd yn y ward ar hyn o bryd ac ymhle maent wedi eu lleoli. Roedd hyn yn cynnwys Llangoed, Llanddona a Biwmares.

**Cadeirydd Sioe Geffylau Llanddona a Biwmares**
Ymunais â'r pwyllgor i gynllunio 44ain Sioe Geffylau Llanddona a Biwmares ac roedd yn fraint cael fy newis fel Cadeirydd. Roedd yn dipyn o dasg dilyn Richard Lewis (Bryn Glas), person arbennig iawn.

**Ras Hwyl Llandegfan**
Unwaith eto cefnogais y Ras Hwyl a chefais y fraint o gychwyn y ras, yn ogystal llwyddais i redeg y ras mewn 31:12, fy amser gorau eto! Cododd y Ras Hwyl £8,500 at achosion da.

**Hwyaid Marw**
Wrth fynd am dro ar gefn beic gyda fy mhlant, cefais fy mrawychu o weld 25 o hwyaid marw wedi eu gadael ar ochr y ffordd rhwng Llansadwrn a Llandegfan. Cysylltais â thîm Troseddau Gwledig Heddlu Gogledd Cymru er mwyn iddynt ymchwilio a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd.

**Tai Cymdeithasol**
Roeddwn yn falch iawn o weld prosiect yr oeddwn wedi gwneud llawer o waith arno'n dwyn ffrwyth, sef 4 o dai cymdeithasol newydd gwych yn Llansadwrn, 'Llys yr Ysgol' a 5 o dai cymdeithasol newydd yn Llandegfan, 'Stad Hen Ysgol'.

**Y Gloch a Twm Chwarae Teg**
Wrth weithio gydag adeiladwyr y tai cymdeithasol newydd yn Llansadwrn llwyddais i sicrhau mantais i'r gymuned, sef sicrhau fod hen gloch yr ysgol a phlac i gofio Thomas Williams, neu 'Twm Chwarae Teg', yn cael eu harddangos yn barhaol yn y datblygiad.

**Bryn Tirion, Biwmares**
Gweithiais gyda'r adran dai i sicrhau bron i £1m i adnewyddu'r byngalos ym Mryn Tirion, Biwmares. Mae'r gwaith yn dod yn ei flaen yn dda a bydd yn gwneud gwahaniaeth mawr ar ôl ei gwblhau.

**3 - Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

**Llywodraethwr yn Ysgol David Hughes** – wedi mynychu nifer o gyfarfodydd y corff llawn a'r is-bwyllgor cyllid a phersonél.

**Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Llandegfan** – wedi mynychu nifer o gyfarfodydd y corff llawn a'r is-bwyllgor cyllid a phersonél.

**Pobl Seiriol**
Mynychais gyfarfodydd Pobl Seiriol i drafod ac edrych ar ffyrdd o helpu Ward Seiriol yn y dyfodol. Yn ogystal roeddem yn gallu dyfarnu hyd at £10,000 tuag at brosiectau lleol a gyflwynwyd trwy bob cyngor cymuned, yn cynnwys diffibriliwr ar gyfer Llangoed.

**Grŵp Dementia Seiriol**
Rhan o grŵp llywio lleol Seiriol, sydd â'r nod o godi ymwybyddiaeth, helpu teuluoedd a gweithio tuag at fod yn ardal dementia gyfeillgar.

**4 - Dysgu a Datblygu**

Rwyf hefyd yn gweithio fel Darlithydd Busnes ac 'rwy'n diweddaru fy ngwybodaeth yn barhaus ac yn cadw i fyny gyda deddfwriaeth gyfredol a deddfwriaeth newydd.

Rwyf hefyd wedi mynychu tair sesiwn friffio ar gyfer Aelodau Etholedig yng Nghyngor Sir Ynys Môn sy'n darparu gwybodaeth allweddol am wahanol agweddau ar fusnes y Cyngor a'i wasanaethau allweddol.

Rwyf wedi mynychu'r mentrau dysgu a datblygu canlynol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (gwybodaeth wedi'i ddarparu gan Gyngor Sir Ynys Môn):

| | |
|---|---|
| Sesiwn Briffio – Cynllun Corfforaethol a'r Côd | 18/05/2017 |
| Diogelu Sylfaenol | 01/06/2017 |
| Sesiynau Briffio Aelodau (10 allan o 12) | Mai 2017 – Mawrth 2018 |
| *Gall presenoldeb amrywio oherwydd natur gwaith a chyfrifoldebau aelodau - fel deilydd portffolio, cadeirydd pwyllgor neu fel cynrychiolydd y Cyngor ar gyrff allanol, er enghraifft.* | |

**5 – Gweithgareddau a Materion Eraill**

Roedd yn fraint fawr cael fy ail ethol ym mis Mai gan fy mod yn hynod angerddol dros Ward Seiriol ac yn gwneud fy ngorau dros yr ardal ac yn rhoi popeth sydd gennyf i'r rôl.

Mae cyflawni’r rôl yn aml yn galed, yn heriol ac yn rhwystredig ar brydiau, fodd bynnag mae’r rôl yn rhoi llawer iawn o foddhad a phleser personol i mi drwy gael cyfle i gynorthwyo pobl eraill ar yr Ynys.

Y brif her i mi’n bersonol yw cydbwyso galwadau fy rôl gyda fy ngwaith fel Darlithydd Astudiaethau Busnes a fy mywyd teuluol gyda fy nhri o blant ifanc a’m gwraig.

Byddaf yn awr yn dechrau ar fy chweched flwyddyn fel aelod etholedig gydag ymrwymiad llwyr a brwdfrydedd. Heb amheuaeth bydd heriau yn ein hwynebu ond bydd cyfleoedd hefyd allai wneud gwahaniaeth gwirioneddol.

Ceir rhagor o wybodaeth amdanaf yma:

http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/mgUserInfo.aspx?UID=295&LLL=1

| | |
|---|---|
| **Y Cynghorydd Carwyn Elias Jones** | **Ebrill 2018** |